Cyswllt Celf Arts Connection

Canolfan Ieuenctid a Chymunedol
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
CYMRU

Youth & Community Centre
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
WALES

COMPANY REGISTERED IN ENGLAND AND WALES - 2911716 - CWMNI COFRESTREDIG YN LLOEGR A CHYMRU
REGISTERED CHARITY NUMBER - 1135641 - ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Ffôn 01691 648 929 Phone
Ffôn Symudol 07814 523 521 Mobile Phone

e-bost nerys / sian@artsconnection.org.uk e-mail
gwefan www.artsconnection.org.uk - www.cyswlltcelf.org.uk web

Tendr Arlunydd ar gyfer Tanffordd 2010 yn Four Crosses ar yr A483

- Trefnwyd ar gyfer mis Awst - Medi 2010

Cefndir a chyd-destun

Mae Cyswllt Celf, o dan gyfarwyddyd Cyngor Sir Powys, yn rheoli darn o gelfyddyd gyhoeddus a 'grëwyd' gan y gymuned yn Four Crosses / Llandysilio ar gyfer tanffordd i gerddwyr sy'n ffurfio rhan o gynllun gwella priffordd yr A483 yn Four Crosses.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adeiladu rhan newydd o'r ffordd i'r gorllewin o bentref Four Crosses, a bydd yn cynnwys cylchfan pedair cangen i gysylltu'r A483 gyda'r B4393.

Bydd gwelliannau Four Crosses yn cynnwys tanffordd i gerddwyr er mwyn darparu ffordd ddiogel i gerddwyr a beicwyr, yn hytrach na chroesi'r ffordd newydd. Bydd y danffordd yn cysylltu'r Eglwys â'r pentref, yn darparu cyswllt i'r gwasanaeth bysys ac yn ffurfio rhan hefyd o ddargyfeiriad Llwybr Troed Ffordd Offa.

Bydd tanffordd y cerddwyr yn mesur 4.0m x 2.4m o uchder a 15m o hyd ac fe'i hadeiladir o unedau o flychau concrid sydd wedi'u rhag-gastio.

Ar ddiwedd 2009, trefnwyd ymgynghoriad gan Gyswllt Celf gyda chymuned Llandysilio er mwyn hel gwybodaeth am y themâu a'r dyluniadau y carent weld fel rhan o'r gwaith celf. O ganlyniad, cytunwyd ar faes gorchwyl artistig a dyluniad sylfaenol. Ymgymerir â gwaith mosaig i gyflawni'r gwaith celf.

Maes gorchwyl

Cydweithio gyda'r tîm prosiect i drefnu cynllun manwl a chyllideb ar gyfer creu'r gwaith celf.

Disgwylir i'r arlunydd greu'r gwaith trwy gynnwys yr ysgolion cynradd lleol a rhai diwrnodau agored i gynnwys cymuned Llandysilio.

Bydd 3 cham i'r prosiect:

- Cam 1 - Awst 2010 - Cyfarfod â'r tîm prosiect i gynllunio'r prosiect - disgwylir mewnbwn o ½ diwrnod - 1 diwrnod yr wythnos gan yr arlunydd
- Cam 2 – mis Medi 2010 – Ymgynghori a chychwyn ar gysylltiadau gyda'r ysgolion ar gyfer hyrwyddo'r prosiect – disgwylir mewnbwn o 1-2 ddiwrnod yr wythnos gan yr arlunydd
- Cam 3 – mis Hydref 2010 – Creu'r gwaith celf – disgwylir mewnbwn o 4 – 5 diwrnod yr wythnos gan yr arlunydd

Ymgymerir â'r gwaith celf tra bydd y cynllun gwelliannau ar droed a dylai'r arlunydd fod yn ymwybodol y byddant yn gweithio yng nghanol safle adeiladu. Bydd yn ofynnol i'r arlunydd ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch, yn unol â chyfarwyddyd rheolwr y safle, tra'n gweithio ar y prosiect.

Bydd Cyswllt Celf yn trefnu, lle bo'n briodol, gweithiwr i gynorthwyo'r arlunydd.

Cyfraddau a Chanllawiau
Cytunir ar gyfanswm y gyllideb a diwrnodau'r arlunydd gyda'r tîm prosiect yn dilyn y penodiad. Bydd o leiaf 20 o ddiwrnodau gwaith ar gyfer yr arlunydd.

Canllawiau o ran cyfraddau: Cyfraddau'r arlunydd = £150 y diwrnod ynghyd â chyfraddau ar gyfer cyfarfodydd o £10 yr awr, milltiroedd o dros 50 milltir am daith gyflawn = i dalu £0.40c y filltir. Cytunir ar ddeunyddiau gyda'r tîm prosiect.

Dethol a Chymhwyster
Dylai'r arlunwyr sy'n ymgeisio arddangos profiad o ran celfyddyd gymunedol, ac yn ddelfrydol, profiad o ran creu darnau celf cyhoeddus parhaol. Mae gwybodaeth o waith mosaig yn hanfodol.

Gwahoddir ceisiadau gan arlunwyr unigol neu ddau arlunydd i ymgymryd â gwahanol agweddau o'r maes gorchwyl.

Gweithdrefnau ymgeisio
Gwahoddir arlunwyr i gyflwyno llythyr eglurhaol, yn cynnwys:

- Enw a manylion cyswllt
- Datganiad gan yr arlunydd (cyfanswm o 500 o eiriau) ynglŷn â'i brofiadau artistig
- Datganiad o'r modd y bydd yn ymdrin â'r maes gorchwyl
- 5 delwedd o leiaf i arddangos gwaith blaenorol
- CV
- Rhif cyfeirnod y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r dyddiad dosbarthu (os nad oes gennych dystysgrif CRB, mae'n ofynnol i chi ymgymryd â gwiriad adnabod y CRB cyn gynted ag y cewch eich penodi.)

D.S.: Petaech yn methu â chyflenwi unrhyw wybodaeth fel y nodir uchod, mae'n bosibl y dilëir eich cais.

Anfonwch eich cais, un ai drwy'r post neu e-bost, at:
Cyswllt Celf, Canolfan Ieuenctid a Chymuned, Llanfyllin, Powys, SY22 5DR neu anfonwch e-bost at: sian@artsconnection.org.uk

Amserlen:	Dyddiad cau	Dydd Gwener, 16eg Gorffennaf 2010
	Hysbysiad	Dydd Gwener, 23ain Gorffennaf 2010
	Cychwyn/Gorffen	Awst – Mis Hydref 2010

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau: Dydd Gwener, 16eg Gorffennaf 2010

Ystyrir pob cais gan y panel dethol.